Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teithio Llesol yng Nghymru

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Archwilio Cymru ar Deithio Llesol yng Nghymru ym mis Hydref 2024, cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ei ymchwiliad ei hun. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r saith argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 3**

**2. Argymhellion PAPAC ... 4**

Argymhelliad 1 ... 4

Argymhelliad 2 ... 4

Argymhelliad 3 ... 5

Argymhelliad 4 ... 5

Argymhelliad 5 ... 6

Argymhelliad 6 ... 6

Argymhelliad 7 ... 7

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad blwyddyn o hyd i deithio llesol yng Nghymru. Mae'n benllanw ar sawl blwyddyn o waith craffu dwys ar y mater hwn, a welodd sawl agwedd ar ddarpariaeth teithio llesol yn cael ei hymchwilio gan Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar y Ddeddf Teithio Llesol, y Bwrdd Teithio Llesol, Archwilio Cymru, yn ogystal â chraffu rheolaidd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. Mae'n ategu'r adolygiad o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 y byddwn yn ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2026.

Daeth ystod eang o argymhellion i law yn sgil yr adolygiadau ac ymchwiliadau hyn, ac mae llawer ohonynt eisoes wedi cael eu rhoi ar waith neu yn y broses o gael eu rhoi ar waith. Mae eraill wedi cael eu disodli gan newidiadau ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, fel y nodir yn y tudalennau canlynol. Fodd bynnag, y Llywodraeth nesaf fydd yn ystyried a gweithredu ar y rhan fwyaf ohonynt.

# 2. Argymhellion PAPAC

## Argymhelliad 1

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gwblhau ei hadolygiad o weithrediadau'r Bwrdd Teithio Llesol, dylai rannu canlyniad yr adolygiad â'r Pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor hwn.

**Derbyn**
Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau adolygiad o'r Bwrdd Teithio Llesol yn ei ffurf ddiwygiedig a gyda'i Gylch Gorchwyl presennol yng Ngwanwyn 2026, gyda'r nod o gwblhau'r adolygiad erbyn yr haf. Nod yr adolygiad yw hysbysu'r Gweinidogion newydd. Bydd canlyniad adolygiad y Bwrdd Teithio Llesol yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor a fydd yn olynu PAPAC pan fydd yr adolygiad hwn wedi ei gwblhau a'i ystyried gan Weinidogion.

## Argymhelliad 2

Dylai'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu drwy Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol roi blaenoriaeth i setliadau aml-flwyddyn, er mwyn rhoi sicrwydd i bartneriaid cyflawni, gan sicrhau cymysgedd mwy effeithiol o gyllid cyfalaf a chyllid refeniw

**Derbyn mewn egwyddor**
Mae'r broses o osod y gyllideb flynyddol yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid aml-flwyddyn gwarantedig i gynlluniau sy'n rhan o'r broses Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Er mwyn galluogi cynlluniau aml-flwyddyn i symud ymlaen gyda lefel uchel o hyder, rydym wedi gwneud darpariaeth i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol gyflwyno cynlluniau yng nghylch presennol 2026-27 ar gyfer cyllid yn 2027-28 a 2028-29 hyd at gyfanswm o 50% o'r gyllideb sydd ar gael yn 2026-27. Mae hyn yn gyfaddawd priodol sy'n cynnig mwy o hyder o ran cynllunio i gynlluniau mwy o faint, wrth gadw elfen o hyblygrwydd er mwyn ymateb i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac amgylchiadau annisgwyl yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym yn parhau i weithio o fewn cyfyngiadau cyllideb refeniw cyfredol ac yn disgwyl i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ac Awdurdodau Lleol fanteisio ar gyfleoedd i gyflawni gweithgareddau hyrwyddo fel rhan annatod o'u rhaglenni cyfalaf.

## Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a/neu'r Cydbwyllgorau Corfforedig, fel y bo'n briodol, i sicrhau bod y gwaith o adnewyddu mapiau'r rhwydwaith teithio llesol yn ystyried ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer unrhyw gynlluniau llai a allai helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith lleol, a allai gael effaith sylweddol ar lwyddiant cynlluniau presennol. Dylai hyn gynnwys pwyso a mesur ble y gellid mynd yn ôl i wneud llwybrau'n fwy cynhwysol.

**Derbyn**

Disgwylir i'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol nesaf gael eu cyflwyno erbyn 1 Rhagfyr 2026. Mae sawl awdurdod lleol wedi dechrau eu prosesau ymgynghori ar gyfer y mapiau newydd. Oherwydd y rhwydweithiau helaeth a nodwyd fel rhan o'r mapiau diwethaf, disgwylir y bydd y mapiau newydd yn canolbwyntio ar estyn rhwydweithiau i safleoedd datblygu newydd, cysylltiadau â threfi a phentrefi cyfagos a mynd i'r afael â chysylltiadau coll. Bydd Llywodraeth Cymru a thîm y Cynghorydd Rhanbarthol Teithio Llesol yn Trafnidiaeth Cymru yn rhoi adborth i awdurdodau lleol i'w cefnogi i ddiweddaru eu mapiau. Mae archwilio llwybrau yn elfen allweddol o'r broses ddiweddaru ac yn helpu i nodi rhwystrau o ran hygyrchedd.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru arwain rhaglen newid ymddygiad genedlaethol, wedi'i dylunio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni, sy'n cynnwys ymagwedd drawsadrannol er mwyn sicrhau ei heffeithiolrwydd pennaf. Os yw hynny'n bosibl, dylai'r rhaglen gynnwys cymorth proffesiynol fel rhan o'r broses ddylunio gan arbenigwyr ym maes newid ymddygiad

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn arwain rhaglen newid ymddygiad a chyfathrebu traws-adrannol aml-flwyddyn ar raddfa fawr gyda Gweithredu ar Hinsawdd Cymru, sy'n cynnwys dewisiadau teithio gwyrdd fel maes gweithredu allweddol. Dewisiadau Teithio Llesol - Gweithredu ar Hinsawdd Cymru

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar wyddoniaeth ac ymchwil ymddygiadol ac yn destun monitro a gwerthuso trylwyr. Byddwn yn parhau i nodi a defnyddio'r holl ddulliau

newid ymddygiad a chyfathrebu addas ar draws adrannau'r llywodraeth i ymgorffori a hyrwyddo teithio llesol.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru rannu canlyniad unrhyw adolygiad i gynllun peilot tref ddangosol y Drenewydd gyda'r Pwyllgor (neu ei olynydd), unwaith y bydd ar gael.

**Derbyn**
Mae'r rhaglen trefi arddangos cerdded, olwyno a beicio yn un o'r camau gweithredu allweddol yn ein Cynllun Cyflawni Teithio Llesol a gyhoeddwyd yng Ngwanwyn 2024. Mae'r rhaglen bellach yn ei blwyddyn lawn gyntaf, gyda'r Drenewydd wedi'i dewis fel y dref arddangos. Y bwriad yw cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o ymyriadau seilwaith wedi'u cynllunio'n dda ochr yn ochr â rhaglenni cyflenwol yn seiliedig ar ymgysylltu cymunedol effeithiol.

Disgwylir i'r rhaglen gael ei chynnal am o leiaf bedair blynedd. Bydd y rhaglen yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â chynlluniau unigol allweddol yn destun monitro ac mae'n cael ei hategu gan werthusiad economaidd iechyd academaidd cyffredinol dan arweiniad Prifysgol Bryste. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn cael eu cyhoeddi a byddant yn cael eu rhannu gyda'r pwyllgorau perthnasol ar y pryd.

## Argymhelliad 6

Dylai Trafnidiaeth Cymru rannu canlyniad ei adolygiad o ganllawiau dylunio llwybrau. Dylai unrhyw ganllawiau dylunio yn y dyfodol sicrhau bod dull mwy cadarn yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â materion y mae unigolion agored i niwed yn eu hwynebu yn ystod y broses ddylunio. Dylai Trafnidiaeth Cymru hefyd fyfyrio ar eu canllawiau ynghylch ymgynghori â'r cyhoedd a dylai ystyried ystod ehangach o ddulliau, yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol, i gyrraedd carfannau o'r cyhoedd nad ymgynghorir â hwy ar hyn o bryd.

**Derbyn**
Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Ganllawiau drafft diwygiedig y Ddeddf Teithio Llesol, sy'n nodi'n gynhwysfawr ddisgwyliadau sy'n ymwneud â chynllunio a dylunio ar gyfer cynlluniau cerdded, olwyno a beicio yng

Nghymru, gan gynnwys manylion dylunio ar gyfer ystod eang o fathau o seilwaith. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi disgwyliadau mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu ar wahanol gamau o'r broses gynllunio a chyflawni.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 13 Chwefror 2026. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar-lein, ceisir adborth gan ystod eang o randdeiliaid trwy amrywiaeth o sianeli a digwyddiadau ymgysylltu.

Gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd ar y ddogfen ddrafft ac yn cwblhau'r Canllawiau newydd dros y misoedd nesaf. Bydd y Canllawiau diwygiedig terfynol yn cael eu cyhoeddi.

Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar ganllawiau diwygiedig y Ddeddf Teithio Llesol (21 Tachwedd 2025) | LLYW. CYMRU

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru rannu canlyniad ei hadolygiad ôl-weithredu o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**Derbyn**
Mae'r adroddiad ar yr adolygiad ôl-weithredu o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 bellach wedi'i gwblhau yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Deithio Llesol yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2025. Mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2026 a bydd yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Senedd ar yr adeg honno.